# HYSBYSIAD ETHOLIAD
# ETHOLIAD SENEDD
# ETHOLAETH CLWYD

1. Mae etholiad i gael ei gynnal i Aelodau wasanaethu yn y Senedd dros etholaeth Clwyd.
2. Gellir cael papurau enwebu o swyddfa'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir y Fflint CH5 3FF neu'n electronig drwy ymgeiswyr@siryfflint.gov.uk
3. Gellir danfon papurau enwebu trwy apwyntiad ymlaen llaw i'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn Nhŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir y Fflint CH5 3FF rhwng **9am a 4pm** ar unrhyw ddiwrnod gwaith (dydd Llun i ddydd Gwener) o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn ond ddim hwyrach na **4pm** ar **ddydd Iau 9 Ebrill 2026** neu'n electronig yn unol â'r trefniadau a nodwyd yn y datganiad cyflenwi electronig isod, ond ddim hwyrach na **4pm** ar **ddydd Iau 9 Ebrill 2026**.
4. Gellir talu'r blaendal o £500 fesul ymgeisydd unigol neu'r blaendal o £500 ar gyfer yr ymgeisydd cyntaf ar restr pleidiau, a £200 ar gyfer pob un o'r pum ymgeisydd nesaf ar y rhestr pleidiau, naill ai mewn arian parod, drafft banc (banciau sy'n gweithredu yn y Deyrnas Unedig yn unig) neu drwy drosglwyddiad banc uniongyrchol.
5. Os bydd mwy nag un ymgeisydd yn cystadlu am sedd, bydd y bleidlais yn cael ei chynnal **ddydd Iau, 7 Mai 2026.**
6. Rhaid i geisiadau sydd i'w hychwanegu at y Gofrestr Etholwyr er mwyn pleidleisio yn yr etholiad hwn gyrraedd y **Swyddog Cofrestru Etholiadol** (fel y dangosir isod) erbyn **dydd Llun 20 Ebrill 2026**. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein yn **www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**
7. Rhaid i geisiadau, newidiadau neu ganslo pleidleisiau post gyrraedd y **Swyddog Cofrestru Etholiadol** (fel y dangosir isod) erbyn **5pm dydd Mawrth, 21 Ebrill 2026.**
8. Rhaid i geisiadau am benodi Dirprwy gyrraedd y **Swyddog Cofrestru Etholiadol** (fel y dangosir isod) erbyn **5pm dydd Mawrth 28 Ebrill 2026.**
9. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn ar sail analluogrwydd corfforol neu am resymau gwaith/gwasanaeth gyrraedd y **Swyddog Cofrestru Etholiadol** (fel y dangosir isod) erbyn **5pm dydd Iau, 7 Mai 2026.** Mae'n rhaid i'r analluogrwydd corfforol fod wedi digwydd **ar ôl 5pm ddydd Mawrth 28 Ebrill 2026**. I ymgeisio ar sail gwaith/gwasanaeth, mae'n rhaid i'r unigolyn fod wedi dod i wybod na allant fynd i'r orsaf bleidleisio eu hunain **ar ôl 5pm ddydd Mawrth, 28 Ebrill 2026.**
10. Mae'n rhaid i bapurau enwebu a gyflwynwyd yn electroneg gael eu danfon yn unol â threfniadau a nodir yn y datganiad hwn.

**Datganiad cyflwyno'n electronig**

- **Gwiriadau anffurfiol** - dros e-bost i ymgeiswyr@siryfflint.gov.uk – rhowch "GWIRIADAU ANFFURFIOL – SENEDDCLWYD26' yn y blwch pennawd.
- **Cyflwyno enwebiadau** – dros e-bost i enwebiadau@siryfflint.gov.uk – rhowch 'CYFLWYNIAD ENWEBU FFURFIOL – SENEDDCLWYD26' yn y blwch pennawd.
- Rhaid i'ch papur enwebu gael ei gyflwyno fel atodiad, fe ffafrir dogfen PDF neu ddogfen Word.
- Sylwer: Cyfrifoldeb Swyddog Enwebiadau ar gyfer plaid neu ymgeiswyr unigol fel y bo'n briodol yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn cael y ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir erbyn y dyddiadau cau.
- Nid yw derbynneb electronig bod y neges wedi ei ddarllen gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yn anfon hysbysiad o'u penderfyniad o ran p'un a yw eu henwebiad yn ddilys neu beidio.
- Os bydd arnoch angen cymorth i gyflwyno eich enwebiadau'n electronig, ffoniwch 01352 702329.

| Y Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer Sir neu Fwrdeistref Sirol | | |
|---|---|---|
| Conwy | Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn, LL29 7AZ | 01492 575570 |
| Sir Ddinbych | Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN | 01824 706000 |
| Sir y Fflint | Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, CH5 3FF | 01352 702300 |
| Wrecsam | Neuadd y Dref, Wrecsam, LL11 1AY | 01978 292020 |

**Neal Cockerton**
**Swyddog Canlyniadau Etholaethol**

**Dyddiedig: Dydd Mercher 25 Mawrth 2026**

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau Etholaethol, Cyngor Sir y Fflint, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewis Sant, Ewlo, Sir y Fflint CH5 3FF